COMISIWN
gwasanaethau cyfreithiol

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon **2010-11**

Cymorth cyfreithiol - mynediad teg at gyfiawnder

legal aid – fair access to justice

Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2010-11

A gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Atodlen 1, paragraff 14 (3) a 16 (4) o Ddeddf Mynediad at Gyfiawnder 1999.

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i gael eu hargraffu ar 27 Hydref 2011.

HC1555 Llundain: Y Llyfrfa £20.50

© Hawlfraint y Goron 2011

Cewch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (heb gynnwys y logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu e-bostio: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn chiefexecutive@legalservices.gsi.gov.uk.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael hefyd yn http://www.official-documents.gov.uk/.

ISBN: 9780102974799

Argraffwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf. ar ran Rheolydd Llyfrfa Ei Mawrhydi.

ID 2448413 10/11

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o ffibr wedi'i ailgylchu.

Cynnwys

Adolygiad y Cadeirydd	**2**
Cymorth cyfreithiol - mynediad teg at gyfiawnder	**3**
Cipolwg ar y flwyddyn	**5**
Ein perfformiad	**11**
Adroddiadau ariannol	**19**

Adolygiad y Cadeirydd

Mae 10 mlynedd wedi mynd heibio bellach ers creu'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol a'r Gwasanaeth Amddiffyn Troseddol dan Ddeddf Mynediad at Gyfiawnder 1999, ac mae'r gyllideb cymorth cyfreithiol yn parhau i ddarparu dros 2.7 miliwn gweithred o gymorth bob blwyddyn.

Bu inni ganolbwyntio'n bennaf yn ystod 2010 a 2011 ar wella rhagor ar reolaeth ariannol, cyfrannu at y broses o reoli a darparu mynediad i gymorth cyfreithiol yn effeithiol a hefyd ein gwaith gweinyddol ein hunain gan barhau yr un pryd i gefnogi'r Weinyddiaeth Cyfiawnder i roi'r rhaglen ar gyfer diwygio cymorth cyfreithiol ar waith. Yn dilyn adolygiad Magee o drefn lywodraethu a darparu cymorth cyfreithiol (a gyhoeddwyd ym Mawrth 2010), un o'm mhrif flaenoriaethau fu gwella'r berthynas â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ac rwy'n falch o allu dweud bod gennym berthynas weithio adeiladol sydd wedi gwella'n sylweddol.

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn anodd iawn i staff y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (LSC) wrth iddynt ymdopi â gosod contractau troseddol a sifil newydd, nifer mawr o heriau cyfreithiol i benderfyniadau tendro a'r ffaith i ni a darparwyr fod yn destun archwilio mwy cadarn. Hoffwn ddiolch iddynt am eu hymdrechion sy'n dechrau darparu rhai buddion ariannol sylweddol i'r gronfa cymorth cyfreithiol. Yn ystod y flwyddyn hefyd ffarwelion ni â nifer o aelodau staff a Chomisiynwyr a oedd wedi bod yn eu swyddi ers tro. Hoffwn gydnabod eu cyfraniadau sylweddol. Yn arbennig, hoffwn enwi Carolyn Downs am lywio'r LSC drwy amseroedd hynod heriol ers ymuno â ni ym Mawrth 2010.

Ym mis Mehefin 2011, cyhoeddodd y Llywodraeth ei hymateb i'r ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio cymorth cyfreithiol a chafodd y Bil Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr ei gyflwyno gan y Llywodraeth.

Mae'r Llywodraeth yn bwriadu diwygio'r system cymorth cyfreithiol er mwyn:

- Atal ymgyfreitha diangen a gwrthwynebus ar gost y cyhoedd
- Targedu cymorth cyfreithiol at y bobl hynny sydd ei angen fwyaf
- Gwneud arbedion sylweddol yng nghost y cynllun
- Darparu gwell gwerth am arian yn gyffredinol i'r trethdalwr.

Gan edrych i'r dyfodol, ein gweledigaeth yw gweithio gyda'n darparwyr a'r system cyfiawnder i fod yn gomisiynydd a gweinyddwr cymorth cyfreithiol a berchir. I wneud hyn, byddwn yn gweithio gyda darparwyr a'u cyrff cynrychioliadol i sicrhau bod y berthynas rhyngom yn adeiladol a llawn parch.

Byddwn yn gwneud rhagor o newidiadau i'n sefydliad wrth inni baratoi ar gyfer darparu cymorth cyfreithiol yn y dyfodol drwy asiantaeth weithredol o dan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Byddwn yn parhau i roi sylw i gymhwysedd yng nghyswllt cyfrifon cymorth cyfreithiol, lleihau rhagor ar orbenion a chyflwyno system rheoli achosion electronig ar gyfer cymorth cyfreithiol sifil. Pan fydd y Bil wedi'i basio, bydd yn rhaid inni hefyd roi newidiadau ar waith y bydd y Senedd wedi cytuno iddynt. Mae ein hagenda yn parhau yn heriol iawn. Mae comisiynwyr a staff yn ymrwymedig i sicrhau y byddwn yn ymateb i'r heriau hynny yn y flwyddyn i ddod.



Syr Bill Callaghan
Cadeirydd

Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol
Hydref 2011

Cymorth cyfreithiol - mynediad teg at gyfiawnder

Y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol (LSC) sy'n gyfrifol am weinyddiaeth weithredol y cynllun cymorth cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr.

Mae cymorth cyfreithiol yn galluogi pobl i ddiogelu eu hawliau a datrys eu problemau. Mae ein gwaith felly'n hanfodol er mwyn cael systemau cyfiawnder sifil a throseddol sy'n deg, yn effeithiol ac yn effeithlon. Mae hefyd yn hollbwysig ar gyfer helpu i ddarparu mynediad at gymorth cyfreithiol i rai o aelodau mwyaf bregus cymdeithas.

Mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol yn cyflogi ryw 1,500 o bobl ledled Cymru a Lloegr. Rydym yn comisiynu, caffael a thalu am wasanaethau cymorth cyfreithiol oddi wrth ddarparwyr y mae eu hansawdd wedi'i sicrhau.

Rydym yn darparu gwasanaethau cyfreithiol drwy gyfrwng dau gynllun: y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol a'r Gwasanaeth Amddiffyn Troseddol. Mae gan y ddau gynllun feini prawf cymhwysedd o ran modd y cleient a natur y broblem, gyda rhai eithriadau penodol.

Y Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol

Mae'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol (CLS) yn cynnwys asiantaethau cynghori a chyfreithwyr dan gontract sy'n darparu cynrychiolaeth a chyngor cyfreithiol mewn achosion sifil a theulu.

Y LSC sy'n rheoli Cyngor Cyfreithiol Cymunedol, sy'n cynnwys gwasanaethau ffôn a rhyngrwyd. Rydym hefyd yn contractio gyda darparwyr i ddarparu gwasanaethau cymorth cyfreithiol sifil wyneb yn wyneb mewn sawl categori megis dyledion a thai.

Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol

Y Gwasanaeth Amddiffyn Troseddol

Mae'r Gwasanaeth Amddiffyn Troseddol (CDS) yn darparu cynrychiolaeth a chyngor cyfreithiol i bobl sydd wedi'u cyhuddo o drosedd neu sy'n destun ymchwiliad gan yr heddlu.

Mae'r LSC yn rheoli'r cynlluniau cyfreithiwr ar ddyletswydd ar gyfer gorsafoedd heddlu a llysoedd ynadon fel bod y rheini y mae angen cynrychiolaeth a chyngor arnynt yn cael gweld cyfreithiwr. Rydym hefyd yn ariannu gwasanaethau yn y llysoedd uwch. Mae ein Gwasanaeth Amddiffynnydd Cyhoeddus yn darparu gwasanaethau amddiffyn troseddol yn uniongyrchol i'r cyhoedd.

Criminal Defence Service

Cymorth cyfreithiol - mynediad teg at gyfiawnder

Ein perthynas â'r Llywodraeth

Sefydlwyd yr LSC dan Ddeddf Mynediad at Gyfiawnder 1999 ac ar hyn o bryd mae'n gorff cyhoeddus anadrannol a noddir gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder. Ond, mae Gweinidogion wedi cyhoeddi, yn ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth ofynnol, y bydd y LSC yn cael ei ddiddymu. Y tu allan i'r broses ddeddfwriaethol, bwriedir creu asiantaeth weithredol o fewn y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn 2012 i weinyddu cymorth cyfreithiol.

Yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder sy'n atebol i'r Senedd am ein gweithgareddau a'n perfformiad. Hefyd, yng Nghymru, mae gan y LSC gysylltiadau agos â Llywodraeth Cynulliad Cymru, i gydnabod y weinyddiaeth ddatganoledig.

Ein hamcanion a'n blaenoriaethau

Ein pedwar amcan strategol yn unol â'n Cynllun Busnes ar gyfer 2010-11 oedd:

1. Sicrhau'r mynediad gorau posibl at wasanaethau o ansawdd da er mwyn bodloni anghenion amrywiol y cleientiaid rydym yn eu gwasanaethu

2. Darparu cynllun cymorth cyfreithiol cynaliadwy a sefydliad effeithlon ac amrywiol

3. Hwyluso'r broses o ddarparu cyfiawnder a blaenoriaethau ehangach y llywodraeth yn effeithlon ac yn effeithiol

4. Gweithio gyda'n darparwyr mewn modd teg a chadarn, a gwella ein perfformiad o ran ein darpariaeth.

Dyma oedd ein blaenoriaethau:

A. Darparu strwythur a fframwaith ar gyfer gweinyddu cymorth cyfreithiol yn y dyfodol

B. Gwella rheolaeth ariannol

C. Mynd i'r afael â'r heriau yr ydym yn eu hwynebu o ran y gyllideb ac adnoddau a pharhau i ddarparu mynediad i'r rheini sydd fwyaf mewn angen

D. Ymgysylltu â staff a meithrin eu gallu.

Cipolwg ar y flwyddyn

Yn y bennod hon darperir gwybodaeth am brif ddatblygiadau'r flwyddyn. Mae'n cynnwys yr ystadegau allweddol sy'n ymwneud â darparu cymorth cyfreithiol drwy'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol a'r Gwasanaeth Amddiffyn Troseddol.

Cyfanswm costau achosion cymorth cyfreithiol yw'r ffigurau a roddir yn y testun, oni nodir fel arall. Bwriad hwn yw cysoni'r gwaith adrodd yn well ar draws yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon, sydd ar sail croniadau, a rhoi ffigurau cymharol mwy cyson dros amser.

Rydym yn cyflwyno gwybodaeth ystadegol ar ffurf crynodeb. Ceir dadansoddiad ystadegol manwl o'n gwaith yn 2010-11, gan gynnwys cymariaethau â 2009-10, ar ein gwefan yn www.legalservices.gov.uk/aboutus/how/strategic_publications.asp.

Gwariant a gweithredoedd o gymorth 2010-2011[1]

	Adnoddau a wariwyd £m	Gweithredoedd o gymorth 000oedd
Gwaith Trwyddedig yr CLS (gros)[2]	913.7	149.8
llai derbyniadau gweithredu	(198.2)	–
Llog i'w dderbyn/a dderbyniwyd ayb.	(8.1)	–
Gwaith Trwyddedig y CLS (net)	707.4	–
Gwaith Rheoledig y CLS[3]	278.0	1,096.0
Cyfanswm y CLS (net)	**985.4**	**1,245.8**
Troseddu Is (gros)[4]	443.4	1,338.1
Troseddu Uwch (gros)[5]	688.2	130.6
llai derbyniadau gweithredu, ayb.	(1.8)	–
Cyfanswm y CDS (net)	**1,129.8**	**1,468.7**
Cyfanswm y CLS a'r CDS (net)	**2,115.2**	**2,714.5**
Gweinyddiaeth y LSC heb gynnwys ffioedd GLlTEM	86.8	–
Gweinyddiaeth y LSC - ffioedd GLlTEM yn unig	12.4	–
Cyfanswm gweinyddiaeth y LSC	**99.2**	**–**

1 Caiff gwaith Rheoledig a Gwaith Trwyddedig eu diffinio ar dudalen 6. Efallai na fydd y ffigurau'n cyfateb i'r cyfanswm oherwydd talgrynnu.

2 Mae gweithredoedd o gymorth Gwaith Trwyddedig y CLS yn cynnwys gwaith cyfryngu gyda theuluoedd a cheisiadau am gynrychiolaeth sifil a gymeradwywyd.

3 Mae gweithredoedd o gymorth Gwaith Rheoledig y CLS yn seiliedig ar faterion newydd a ddechreuwyd. Ceir eu manylion yn nhabl CLS2 yn y pecyn gwybodaeth ystadegol sydd ar gael ar wefan y LSC.

4 Mae gweithredodd o gymorth Troseddu Is yn seiliedig ar nifer yr hawliadau, heb gynnwys adolygu ffeiliau ac ail hawliadau am ddedfrydu gohiriedig. Ni ddefnyddir materion a ddechreuwyd gan nad yw'r wybodaeth lawn gan y LSC.

5 Mae gweithredoedd o gymorth Troseddu Uwch yn seiliedig ar nifer y gorchmynion cynrychioli a roddwyd.

Ffeithiau a ffigurau allweddol

Ariannon ni 2.7 miliwn gweithred o gymorth cyfreithiol	Parhaodd y LSC i helpu nifer mawr o unigolion ar draws Cymru a Lloegr.
Cyfanswm gwariant cymorth cyfreithiol (net) o £2,115.2m	Y gwariant terfynol ar adnoddau gweinyddu oedd £99.2m (net), £21.5m o ostyngiad ar 2009-10.
Ar 31 Mawrth 2011, roedd gennym 2,335 contract sifil a 1,733 contract troseddol gyda darparwyr gwasanaethau cyfreithiol	Yn 2010-11 fe wnaethom gyflwyno contractau cymorth cyfreithiol newydd i ddisodli'r Contract Unedig a oedd yn bodoli ers 2007 ar gyfer gwaith sifil a 2008 ar gyfer gwaith troseddol. Dechreuodd Contract Sifil Safonol 2010, ar gyfer holl gategorïau cyfraith sifil heblaw am y categori Teulu (a Teulu gyda Thai), ar 15 Tachwedd 2010. Yn dilyn dyfarniad adolygiad barnwrol Cymdeithas y Gyfraith o'n proses tendro sifil, cafodd y contractau Teulu presennol (a Teulu gyda Thai) eu hymestyn i 30 Tachwedd 2011. Dechreuodd Contract Troseddu Safonol 2010 ar 14 Gorffennaf 2010 a bydd ar waith am dair blynedd.

Math o gontract	Nifer y contractau	Nifer y swyddfeydd
Sifil – cyfreithiwr	2,039	2,903
Sifil – di-elw	296	491
Cyfanswm sifil	**2,335**	**3,394**
Cyfanswm troseddol	**1,733**	**2,418**

Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol

Mae'r CLS yn darparu cynrychiolaeth a help cyfreithiol sifil drwy gyfrwng Cyngor Cyfreithiol Cymunedol (CLA) yn ogystal â thrwy gyfreithwyr ac asiantaethau dielw. Mae'r LSC yn dyfarnu contractau i ddarparwyr a rennir yn ôl categori cyfraith sifil, sy'n fodd inni ddyrannu arian i'r meysydd lle mae ar gleientiaid ei angen fwyaf.

Er mwyn cael cyngor a chymorth cychwynnol, mae aelodau'r cyhoedd yn aml yn defnyddio CLA. Os oes angen cyngor wyneb yn wyneb, cymorth neu gynrychiolaeth mewn achos, darperir gwasanaethau mewn dwy brif ffordd:

Gwaith Rheoledig	Gwaith Trwyddedig
• Mae'n cynnwys delio â lefelau sylfaenol o gyngor a chynrychiolaeth • Mae darparwyr yn cynorthwyo'r cleientiaid yn uniongyrchol heb orfod gwneud cais i'r LSC ar gyfer pob achos • Cyfeirir ato hefyd fel Help Cyfreithiol neu Help i'r Teulu (Is) • Mae'n cynnwys Help yn y Llys a chynrychiolaeth gerbron tribiwnlys adolygu iechyd meddwl a thribiwnlys llochesu a mewnfudo • Gweithred o gymorth dan Gwaith Rheoledig yw pob achlysur lle bydd darparwr yn rhoi help cyfreithiol i gleient, heb gynnwys cynrychiolaeth yn y llys.	• Mae hwn i gyfrif am bob math arall o waith sifil ac eithrio Achosion Drudfawr Iawn, a reolir dan gontractau arbenigol • Mae angen cyflwyno ceisiadau am arian i'r LSC ymhob achos. Y LSC fydd yn penderfynu a yw'r meini prawf ariannu a'r profion teilyngdod yn cael eu bodloni. Yna gosodir cyfyngiadau o safbwynt y gwaith. Gellir amrywio'r rhain os bydd darparwr yn gwneud cais ar ran y cleient.

Drwy gyfrwng cyfanswm gwariant o £985.4m (net) gan y CLS llwyddon ni i ddarparu 1.25 miliwn gweithred o gymorth	Arweiniodd 89% o achosion at fudd sylweddol i'r cleient fel y rhoddwyd gwybod i'r LSC gan ddarparwyr gwasanaethau cymorth cyfreithiol.
Fe wnaethom ariannu dros 1 miliwn gweithred o gymorth Help Cyfreithiol	Fe wnaethom ragori ar ein targed i ddarparu 1 miliwn gweithred o gymorth Help Cyfreithiol drwy gyfrwng cyngor dros y ffôn ac wyneb yn wyneb yn ystod 2010-11, gyda chyfanswm o 1.03 miliwn gweithred o gymorth yn cael eu darparu. Fe wnaethom hefyd ddarparu 83,453 arall o weithredoedd o gymorth mewnfudo ar sail y galw a rhoi 144,875 o dystysgrifau ar gyfer Gwaith Trwyddedig.



Cyngor Cyfreithiol Cymunedol

Mae CLA yn cynnig cyngor a chymorth cyfreithiol sifil annibynnol, cyfrinachol a di-dâl

Caiff unrhyw un gysylltu â CLA i gael ei gyfeirio i'r lle iawn am ragor o gymorth a gall unigolion sy'n gymwys i gael cymorth cyfreithiol cael cyngor a chymorth arbenigol.

Mae gwasanaethau'r CLA yn cynnwys:

- Taflen yn cyfeirio pobl i wefan y CLA. Mae ar gael mewn amrywiaeth eang o leoliadau ledled Cymru a Lloegr
- Llinell gymorth dros y ffôn, sy'n darparu cymorth a chyngor cychwynnol ar gyfer dod o hyd i ragor o gymorth. Gall y rheini sy'n chwilio am gyngor ffonio 0845 345 4345
- Gwasanaeth 'galwch chi'n ôl', a all fod mewn iaith heblaw'r Saesneg, sydd ar gael drwy wefan DirectGov neu drwy anfon neges testun 'legalaid' i 80010
- Bellach, gellir cael gwybodaeth am CLA yn www.direct.gov.uk/contactCLA
- Canolfannau a rhwydweithiau Cyngor Cyfreithiol Cymunedol, sy'n darparu gwasanaethau cynghori a chynrychioli ar gyfer amrywiaeth eang o faterion. Ar 31 Mawrth 2011, roedd gennym naw canolfan ac un rhwydwaith.

Darparodd CLA 397,191 gweithred o gymorth

Fe wnaeth cynghorwyr arbenigol ar y ffôn ddelio â 124,819 gweithred o gymorth (fel y dangosir yn y tabl isod) a chafodd 272,372 o ymholiadau eu terfynu yn y cam brysbennu, wrth i'r gwasanaeth drwy gyfrwng y gweithredwyr ddatrys y mater er boddhad y cleient neu eu cyfeirio at ddarparwr wyneb yn wyneb lleol neu linell gymorth arall.



Gwasanaeth Amddiffyn Troseddol

Mae'r CDS yn rhan o'r System Cyfiawnder Troseddol ehangach, ac mae'n sicrhau bob pob unigolyn cymwys sy'n cael ei amau neu ei gyhuddo o drosedd yn gallu cael gafael ar gyngor, cymorth a chynrychiolaeth.

Cyngor neu gynrychiolaeth	Mathau o wasanaeth	Niferoedd	Cyfanswm a hawliwyd (£'000)
Troseddu Is: Gwasanaethau a ddarparwyd i rai dan amheuaeth ond nad oeddynt wedi'u cyhuddo eto	Presenoldeb mewn gorsaf heddlu	675,502	170,810
	Cyfanswm y cyngor dros y ffôn a gweinyddu	161,342	7,813
	Gwaith arall mewn gorsafoedd heddlu	8,660	1,384
Troseddu Is: Gwasanaethau a ddarparwyd i ddiffynyddion a oedd wedi'u cyhuddo	Cyfanswm lle mae gorchymyn cynrychioli'n ofynnol	429,605	203,243
	Cyfanswm lle nad oes angen gorchymyn cynrychioli neu lle gwrthodir gorchymyn cynrychioli	17,882	7,625
	Cyfreithiwr dan ddyletswydd yn y llys	87,568	23,480
	Cyfraith carchardai	46,432	25,864
Troseddu Uwch	Yr holl gynlluniau troseddu uwch	286,072	702,892

Drwy gyfrwng cyfanswm gwariant o £1,129.8m (net) gan y CDS llwyddon ni i ddarparu 1.47 miliwn gweithred o gymorth	Rydym yn sicrhau y darperir amrywiaeth o wasanaethau amddiffyn troseddol, o gyngor a chymorth mewn gorsaf heddlu i amddiffyn cleientiaid yn y llys os cânt eu cyhuddo.
Galw CDS – mynediad at gyngor a gwerth am arian	Mae Galw CDS yn rhoi mynediad uniongyrchol at gyngor dros y ffôn i aelodau'r cyhoedd sy'n cael eu cadw gan yr heddlu ar amheuaeth o droseddau llai difrifol. Mae ein gwasanaeth ateb galwadau, y Ganolfan Alwadau Cyfreithwyr ar Ddyletswydd yn sicrhau y darperir cyngor dros y ffôn gan Galw CDS, neu'n cysylltu â darparwyr unigol i roi cyngor wyneb yn wynebu yn dibynnu ar natur y trosedd honedig. Mae Galw CDS yn cyflawni gwaith i'w gleientiaid ei hun yn ogystal â gwaith ar ddyletswydd. Caiff cleientiaid newid i'w cyfreithwyr eu hunain yn ddiweddarach os ydynt angen rhywun yn bresennol yn yr orsaf heddlu ar gyfer cyfweliad neu os aiff eu hachos i'r llys. O'r 161,342 o achosion rhoi cyngor dros y ffôn yn 2010-11, darparwyd 123,903 gan Galw CDS. O ran amser ymateb, cafodd dros 99% o alwadau yn ôl i orsafoedd heddlu eu gwneud cyn pen 15 munud a thros 99% cyn pen 30 munud. Ar gyfartaledd, yr amser ar gyfer gwneud galwad ar ôl gwneud cais oedd 2 funud a 47 eiliad. Roedd y 37,439 gweithred o gymorth a oedd yn weddill yn gyngor dros y ffôn gan ddarparwyr unigol pan wnaethant hwy eu hunain ddyfarnu y byddai cyngor dros y ffôn yn briodol, er bod y trosedd honedig yn gymwys am gyngor wyneb yn wyneb, oherwydd amgylchiadau'r achos.

Cipolwg ar y flwyddyn

Delio 100% â chynlluniau Cyfreithwyr ar Ddyletswydd 24-awr	Parhaodd y CDS i ddelio'n gyfan gwbl â chynlluniau cyfreithwyr ar ddyletswydd mewn gorsafoedd heddlu yng Nghymru a Lloegr.
Mynediad at gyfiawnder – o orsafoedd heddlu i'r uchel lysoedd	Dan Gontract Troseddu Sylfaenol 2010 fe wnaethon ni ariannu 1.34 miliwn gweithred o gymorth mewn gorsafoedd heddlu a llysoedd ynadon a 130,621 yn y llysoedd uwch.
Agorodd Gwasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus 3,339 o ffeiliau yn 2010-11 	Sefydlwyd Gwasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus yn 2001 a dyma'r darparwr cymorth cyfreithiol troseddol cyflogedig cyntaf yng Nghymru a Lloegr. Ar hyn o bryd mae gan y gwasanaeth 4 swyddfa: Cheltenham, Darlington, Pontypridd ac Abertawe. Mae cyfreithwyr Gwasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus ar gael 24 awr y dydd, saith niwrnod yr wythnos i ddarparu cymorth, cyngor a chynrychiolaeth annibynnol ar faterion troseddol. Mae'r LSC yn cyflogi cyfreithwyr Gwasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus yn uniongyrchol, a rhaid iddynt lynu wrth God Ymddygiad y gwasanaeth er mwyn sicrhau annibyniaeth.

Ein perfformiad

Bob blwyddyn rydym yn gosod cyfres o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (KPI). Bwriad y rhain yw ein helpu i weithio tuag at fodloni ein hamcanion strategol a sicrhau ein bod yn cynnal mynediad teg at gyfiawnder.

Er bod y dangosyddion yn amrywio bob blwyddyn, mae rhai ohonynt yn aros yn gyson, megis monitro mynediad at y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu, a sicrhau cynllun cymorth cyfreithiol cynaliadwy drwy dargedau ar ein cyllid.

Mae'r 'cerdyn sgorio cytbwys' yn dangos sut y gwnaethom berfformio yn erbyn ein dangosyddion perfformiad allweddol:

Cyflawnwyd

Cyflawnwyd yn rhannol

Heb ei gyflawni

Os cafodd KPI ei gyflawni'n rhannol neu os na chafodd ei gyflawni o gwbl, rydym wedi cynnwys troednodyn i esbonio'n perfformiad yn fwy manwl.

Eleni, fe wnaethom gyflawni 6 KPI a chyflawni 1 yn rhannol. Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei harchwilio.

Cyllid			
Amcan strategol	Pennawd y KPI	KPI	Statws
Darparu cynllun cymorth cyfreithiol cynaliadwy a sefydliad effeithlon ac amrywiol	Gweithredu i fyw o fewn y rhagolwg y cytunwyd iddo ar gyfer y gronfa	Y targed yw cwblhau'r camau gweithredu y cytunwyd iddynt gyda'r Weinyddiaeth Cyfiawnder mewn cyfarfodydd adolygu cyllid misol, erbyn y dyddiad terfyn penodedig.	
	Byw o fewn y gyllideb weinyddu	Byddwn yn byw o fewn y gyllideb weinyddu a ddyrannwyd i ni, sef £107.2m (gan gynnwys profion modd Llys y Goron), a byddwn yn olrhain yr amrywiant i'n cyllideb am flwyddyn lawn a'r flwyddyn hyd yma..	
	Mesur stiwardiaeth	Y targed yw cwblhau'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt sy'n rhan o gynllun gweithredu stiwardiaeth ariannol y LSC, er mwyn cryfhau rheolaeth ariannol a lleihau'r perygl o osod amodau ar y cyfrifon yn y dyfodol. Mae'r camau gweithredu a fydd yn cael eu cymryd yn cynnwys gweithredu cam 1 o argymhellion Ernst a Young (a nododd welliannau i reolaethau ariannol ar gyfer y gronfa cymorth cyfreithiol a'r gyllideb weinyddu), rhoi camau gweithredu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar waith asefydlu'r system cyfriflyfr cyffredinol newydd.	

Ein perfformiad

Cleientiaid			
Amcan strategol	Pennawd y KPI	KPI	Statws
Sicrhau'r mynediad gorau posibl at wasanaethau o ansawdd da er mwyn bodloni anghenion amrywiol y cleientiaid rydym yn eu gwasanaethu	Darparu 1 miliwn gweithred o gymorth	Byddwn yn cyrraedd 600,000 gweithred o gymorth wyneb yn wyneb a 400,000 gweithred o gymorth dros y ffôn erbyn 31 Mawrth 2011. Mae'r targed ar gyfer y ffôn wedi'i rannu'n 100,000 gan arbenigwyr y CLS a 300,000 gan drefn frysbennu'r CLA.	☑
Hwyluso'r broses o ddarparu cyfiawnder a blaenoriaethau ehangach y llywodraeth yn effeithlon ac yn effeithiol	Cynlluniau systemau cyfan	Dyma darged a grëwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder, gyda Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi (Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi erbyn hyn), CAFCASS (Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd), awdurdodau lleol a'r LSC i gyd yn chwarae'u rhan er mwyn lleihau oedi mewn achosion goruchwylio plant a gofal. Mae'r targed cyffredinol dros bum mlynedd ond cyfraniad blwyddyn 1 fydd codi nifer y rhieni (a'r rheini â chyfrifoldeb rhiant) yn Lloegr sy'n derbyn cyngor cyn achos (lefel 2) mewn achosion Gofal i 15% mewn 90% o ardaloedd awdurdodau lleol. Nifer yr awdurdodau lleol lle mae'r targed hwn yn cael ei gyrraedd ar hyn o bryd yw 157 (48%). Y targed yw cynyddu hwn i 294 sef cynnydd o 137 ardal awdurdod lleol. I wneud hyn rhaid cael 42% o welliant. I geisio cyflawni'r targed ymestynnol hwn, bydd y LSC yn gweithredu fel a ganlyn gydol y flwyddyn: • Pennu'r darparwyr sy'n darparu ychydig neu ddim cyngor ar lefel 2 a chysylltu â nhw i gynyddu'r nifer • Darparu data daearyddol ar y defnydd o gyngor lefel 2 i grwpiau monitro perfformiad lleol • Cyfrannu at grwpiau monitro sy'n cynnwys awdurdodau lleol, naill ai drwy fynychu'r cyfarfod neu drwy ddarparu gwybodaeth a phapurau ategol.	☑

Proses			
Amcan strategol	Pennawd y KPI	KPI	Statws
Hwyluso'r broses o ddarparu cyfiawnder a blaenoriaethau ehangach y llywodraeth yn effeithlon ac yn effeithiol	Sgôr gwasanaeth i gwsmeriaid	Bodloni lefelau perfformiad penodol mewn o leiaf 10 targed o 15. Mae'r meysydd i'w mesur yn cynnwys ansawdd ein gwaith, cyflymder prosesu ac ymateb. Mae'r targedau ymestynnol hyn yn cynnwys prosesu ceisiadau a biliau, a chyfraddau camgymeriadau.	[1]

Sefydliad/pobl			
Amcan strategol	Pennawd y KPI	KPI	Statws
Gweithio gyda'n darparwyr mewn modd teg a chadarn, a gwella perfformiad o ran ein darpariaeth	Cerdyn sgorio pobl	Bodloni'r mesurau pobl canlynol: i. Sicrhau cyfartaledd o 7.66 neu lai o ddiwrnodau absenoldeb salwch y person am y flwyddyn ii. Mae gan 98% o weithwyr a ddylai fod wedi cael Adolygiad Datblygu Perfformiad ar gyfer rowndiau Mai/Mehefin a Rhagfyr/Ionawr sgôr wedi'i gofnodi ar y system AD iii. Lleihau cyfanswm nifer y cwynion, apeliadau a thribiwnlysoedd 15% o'i gymharu â 2009-10	[2]

1 Mae'r cerdyn sgorio gwasanaeth i gwsmeriaid yn cynnwys mesurau allweddol megis ansawdd ein gwaith a chyflymder prosesu ac amseroedd ymateb. Effeithiwyd ar berfformiad gan gynnydd yn nifer yr hawliadau, a gwiriadau ychwanegol a gyflwynwyd er mwyn dileu gor-dalu a gor-hawlio.

2 Newidiwyd rhan iii y targed hwn ar ôl cyhoeddi'r Cynllun Busnes i ostyngiad 10% mewn cwynion, gan y gallai'r LSC feincnodi'r data ar gyfer yr elfen hon yn fwy cywir. Gwnaethom sicrhau gostyngiad 12% mewn cwynion eleni o'i gymharu â 2009-10.

Ein perfformiad

Cafodd ein cerrig milltir allweddol hefyd eu nodi yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2010-11 sy'n cysylltu'n uniongyrchol â phob un o'n pedair blaenoriaeth.

Mae'r siart cerrig milltir yn dangos sut y gwnaethom berfformio:

- Da
- Cymysg
- Problemus
- Problemus iawn

Pan oedd carreg filltir yn broblemus, rydym wedi cynnwys troednodyn i esbonio'n perfformiad yn fwy manwl. Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei harchwilio.

Darparu strwythur a fframwaith ar gyfer gweinyddu cymorth cyfreithiol yn y dyfodol

3c – Cafodd cyfarwyddiadau polisi gan y LSC eu cwblhau a'u cyflwyno i'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ym Mehefin 2011.

4c – Mae'r ateb TG ar gyfer sicrhau gwybodaeth yn cael ei gwblhau yng nghyd-destun y prosiectau i'w cyflenwi yn 2011-12, effaith y newid i statws asiantaeth weithredol a strwythur y tîm TG.

5a, b and d – Dechreuodd y gwaith yn ddiweddarach gan i'r dyddiad ar gyfer newid i asiantaeth weithredol gael ei symud o'r dyddiad arfaethedig gwreiddiol, er ei fod yn dal yn yr arfaeth ar gyfer y dyddiad newid diwygiedig.

6a – Cafodd strategaeth ystadau'r LSC ei diweddaru i adlewyrchu'r cynnydd sydd wedi'i wneud ers ei chymeradwyo ac i adlewyrchu'r gwaith o gynllunio strategaethau adleoli presennol y rhaglen .

Gwella rheolaeth ariannol

2h – Newidiwyd y garreg filltir hon yn dilyn cyhoeddi'r Cynllun Busnes i ganolbwyntio ar leihau'r ddyled gyffredinol sy'n ddyledus i'r LSC i £295m yn hytrach na lleihau'r ddyled sy'n ddyledus i'r LSC o £20m.

Mynd i'r afael â'r heriau yr ydym yn eu hwynebu o ran y gyllideb ac adnoddau a pharhau i ddarparu mynediad i'r rhai sydd fwyaf mewn angen

2b – Gwnaethpwyd cynnydd arafach gyda phrosiect cyfrifyddu'r gronfa, gan fod llawer o'r cynllunio'n seiliedig ar brosesau â llaw a ddylai gael eu hawtomeiddio yn ôl defnyddwyr yn y timau rheoli achosion a chyllid.

2e – Mae'r Rhaglen Cyflenwi Integredig wedi'i hailgwmpasu i ymgorffori swyddogaethau pwysig ychwanegol a bydd yn awr yn cael ei rhoi ar waith yn 2012.

Darparu strwythur a fframwaith ar gyfer gweinyddu cymorth cyfreithiol yn y dyfodol

1.Rhoi'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno ar waith	
1a	Rheolwyr ffrydiau gwaith wedi'u dynodi a'u pennu
1b	Llywodraethu – adolygu maint y Comisiwn
1c	Cytuno â'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ar yr argymhellion i'w symud ymlaen
1d	Canlyniadau ac allbynnau allweddol yn cael eu diffinio ar gyfer pob ffrwd waith
1e	Yr Ysgrifennydd Parhaol a Chadeirydd y LSC yn meithrin perthynas ar y cyd rhwng y LSC a'r Weinyddiaeth Cyfiawnder ar bob lefel
1f	Consensws gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder/LSC ar y ffordd ymlaen
1g	Dogfen fframwaith y cytunwyd arni
1h	Adolygiad annibynnol o gynnydd yn erbyn y cynllun cynnydd a gomisiynwyd gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder
2. Datblygu achos busnes ar gyfer y newid i statws asiantaeth weithredol	
2a	Manteision manwl yn cael eu diffinio a strategaeth wireddu'n cael ei datblygu
2b	Cyflwyno sylwadau i Weinidogion ar y newid i statws asiantaeth weithredol a chytuno ar y cynigion ar gyfer newid cyn pen 18 mis
2c	Adolygiad Adwy 0 o'r rhaglen
2d	Cyhoeddi strategaeth yr asiantaeth
3. Diffinio gweithdrefnau polisi a llywodraethu'r sefydliad newydd	
3a	Eglurder ar wneud polisïau; y Weinyddiaeth Cyfiawnder/LSC i sefydlu ffocws un sefydliad
3b	Cytuno'n derfynol ar bolisi, gwneud penderfyniadau a strwythur
3c	Sicrhau bod gwaith ategol ar gynigion yn ymwneud ag eitemau i'w cynnwys yn y Bil Cymorth Cyfreithiol yn cael ei gwblhau
4. Diffinio systemau a phrosesau (gan gynnwys TGCh) gweithredol y sefydliad newydd	
4a	Cytuno ar yr achos am ragor o fesurau effeithlonrwydd
4b	Y Weinyddiaeth y Cyfiawnder, y LSC a GLITEM i ystyried rhannu cyfrifoldebau
4c	Strategaeth diogelwch gwybodaeth ddrafft wedi'i chwblhau
4d	Canolbwyntio ar ddatblygu arbenigedd a gallu fel corff comisiynu
4e	Datblygu a gweithredu cynnig i sicrhau cydbwysedd rhwng rheoli darparwyr a chaniatáu hunanreolaeth ac arloesi
4f	Asesiad o'r effaith ar breifatrwydd wedi'i gwblhau ar brosesau a systemau "i'w gwneud"
5. Diffinio gofynion galluogrwydd a gallu gweithlu'r sefydliad newydd	
5a	Y cynigion ar gyfer cyflog, telerau ac amodau a phensiynau wedi'u cwblhau
5b	Trafodaethau cysylltiadau â gweithwyr wedi'u cwblhau (TUPE ayb.)
5c	Strategaeth AD ddrafft wedi'i chwblhau
5d	Paratoi ar gyfer symud staff dethol y LSC i'r corff newydd
5e	Recriwtio allanol i ddiwallu'r diffygion o ran gallu a sgiliau sy'n flaenoriaeth
6. Diffinio gofynion yr ystad a'r seilwaith	
6a	Strategaeth rheoli'r ystad ddrafft wedi'i chwblhau



Gwella rheolaeth ariannol

1. Parhau i wella systemau, gwiriadau a rheolaethau a llunio cyfrifon y gellir eu harchwilio	
1a	Paratoi cyfrifon 2009-10 ar gyfer eu harchwilio gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol
1b	Gweithredu 'atebion cyflym'. Argymhellion Cam 1 ynghylch gwella rheolaethau ariannol
1c	Diffinio a gweithredu atebion cyflym
1d	Gweithredu argymhellion cam 1
1e	Gweithredu argymhellion cam 2
1f	Cynllunio ar gyfer cyfrifon 2010-11
2. Adennill arian wedi'i ordalu ac adennill dyledion sy'n ddyledus	
2a	Adennill £5m o arian wedi'i ordalu (2008-09)
2b	Adolygu cam 1 y dangosfwrdd darparwyr ar gyfer cwmnïau sydd wedi cael asesiad risg
2c	Dechrau cam 2 y dangosfwrdd darparwyr ar gyfer cwmnïau sydd wedi cael asesiad risg
2d	Cwblhau'r adolygiad a gweithredu newidiadau i fethodoleg y dangosfwrdd darparwyr
2e	Adennill £5m o arian wedi'i ordalu (2009-10)
2f	Adennill £2.5m o arian wedi'i ordalu (2010-11)
2g	Adolygu cam 2 a dechrau cam 3 rhaglen stiwardiaeth ariannol rheolwyr perthynas
2h	Lleihau'r ddyled gyffredinol sy'n ddyledus i'r LSC i £295m
3. Gweithio gyda'n darparwyr mewn modd teg ac effeithlon er mwyn rheoli eu perfformiad	
3a	Cyhoeddi arweiniad cam 1 ar gyfer darparwyr
4. Rhoi cynllun gweithredu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar waith	
4a	Yr holl gamau i'w cwblhau yn unol â'r amserlenni cyhoeddedig



Mynd i'r afael â'r heriau yr ydym yn eu hwynebu o ran y gyllideb ac adnoddau a pharhau i ddarparu mynediad i'r rhai sydd fwyaf mewn angend

1. Rhoi prosiectau diwygio'r drefn cymorth cyfreithiol ar waith	
1a	Diwygiadau ariannu cymorth cyfreithiol
1b	Nod Ansawdd Arbenigol - drwy gyflenwr allanol
1c	Cwblhau'r gwaith o gyflwyno profion modd Llys y Goron yn genedlaethol
1d	Gweithredu contractau troseddol 2010 a chynlluniau ffioedd cyfraith carchardai
1e	Cwblhau gweithredu'r trefniadau newydd ar gyfer cynllun Achosion Drudfawr
1f	Diwygio cyllid cymorth cyfreithiol - trosglwyddo trefniadau tâl traddodi
1g	Diwygio cyllid cymorth cyfreithiol – gostyngiadau i Gynllun Ffioedd Graddedig Eiriolwyr
1h	Gweithredu contractau sifil 2010 a cham 2 ffioedd sifil
2. Rhoi prosiectau newid mewnol ar waith	
2a	Gorffen cyflwyno'r gwaith o weddnewid TG
2b	Cytuno ar ofynion systemau gweithredol a chyfrifyddu ariannol integredig
2c	Tâl Llys y Goron - Cynllun Ffioedd Graddedig Eiriolwyr yn trosglwyddo o GLIEM i'r LSC
2d	Cwblhau'r rhaglen gweddnewid TG lawn
2e	Darparu rheolaeth ar achosion sifil a chyfrifyddu ariannol
3. Helpu i ddatrys problemau ar y cyfle cyntaf posibl	
3a	Gweithredu'r ffordd ymlaen y cytunwyd arni yn dilyn cynlluniau peilot ar gyfer cyfryngu yn y llys
3b	Cydweithio gyda chynlluniau 'dargyfeirio o'r llysoedd' a gwerthuso'u heffeithiolrwydd
4. Darparu cyngor cyfreithiol o safon i'r rheini y mae arnynt ei angen	
4a	Adolygu cyflawniad Gwasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus o ran niwtraliaeth costau
4b	Sefydlu gwasanaeth effeithiol gan ddarparwyr contractau troseddu newydd
4c	Darparu 1 miliwn gweithred o gymorth
4d	Sefydlu gwasanaeth effeithiol gan ddarparwyr contractau sifil newydd
4e	Darparu gwasanaeth o safon drwy Wasanaeth yr Amddiffynnydd Cyhoeddus
5. Gweithredu cylch cynllunio corfforaethol integredig	
5a	Cwblhau'r gwaith o ail-flaenoriaethu rhaglenni a phrosiectau
5b	Cytuno ar ddull gweithredu'r LSC ar gyfer agenda llwybr clir Trysorlys EM a beth fydd y goblygiadau i'r Comisiwn
5c	Cyhoeddi cynllun busnes a Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2010-11
5d	Cwblhau adolygiad interim o berfformiad busnes
5e	Cynllunio ar gyfer cylch cynllunio integredig yn 2011-12
5f	Gweithredu camau nesaf y strategaeth gwybodaeth rheoli
5g	Cwblhau'r cyfrifon adnoddau chwarterol

Ymgysylltu â staff a meithrin eu gallu



1. Cynyddu a chryfhau gallu ein pobl i gyd	
1a	Lansio Adolygiad Datblygiad Perfformiad sydd wedi'i ddiwygio a'i symleiddio
1b	Datblygu cynlluniau gweithredu yn dilyn arolwg staff 2009 a'u rhoi ar waith
1c	Yr Uwch Dîm Rheoli i gael cynlluniau datblygu personol
1d	Lansio pecyn dysgu ar-lein ar gyfer yr holl staff
1e	Dadansoddi'r bwlch mewn sgiliau rheolaeth ariannol a chytuno ar raglen ddatblygu
1f	Cysylltu â fframwaith hyfforddi rheoli prosiectau/rhaglenni'r Weinyddiaeth Cyfiawnder er mwyn gwella'r ddarpariaeth
1g	Lansio rhaglen i ddatblygu gallu i arwain
1h	Staff i gwblhau pecyn hyfforddi ar-lein ar gyfer rheoli risg
1i	Lansio rhaglen sgiliau rheoli 4
1j	Lansio hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth
1k	Cysylltu â fframwaith pobl y gwasanaeth sifil i gysoni ein gwaith a rhannu adnoddau
1l	Datblygu gwell dealltwriaeth o sgiliau rheoli arian
1m	Gwella sgiliau arwain yr Uwch Dîm Rheoli
1n	Gwella gallu'r rheolwyr i fabwysiadu rôl hyfforddi
2. Gwella a chryfhau hyder ac ymgysylltiad staff	
2a	Cyhoeddi'r Cynllun Busnes a rhoi gwybod amdano i'r staff
2b	Peirianwaith monitro ac adrodd yn cael ei ddatblygu a'i sefydlu
2c	Cyhoeddi strategaeth cyfathrebu mewnol ddiwygiedig
2d	Cynlluniau cydnabod lleol yn cael eu cefnogi er mwyn cydnabod perfformiad eithriadol
2e	Sesiynau 'sgwrsio' yn cael eu cynnal gyda'r LSC
2f	Ymgysylltu â'r Uwch Dîm Rheoli a rheolwyr busnes allweddol
2g	Cyfarwyddwr Cyfathrebu wedi'i benodi ac wedi dechrau ar ei swydd
2h	Datblygu a chryfhau'r swyddogaeth archwilio mewnol
2i	Parhau i wella model Partner Busnes AD
2j	Parhau i sefydlu a datblygu'r model gwasanaethau a rennir
2k	Cysylltiadau datblygu proffesiynol ar draws y Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi'u sefydlu a'u rhoi ar waith
2l	Rhaglenni datblygu proffesiynol ar gyfer grwpiau proffesiynol allweddol ar waith
2m	Datblygu a chryfhau sgiliau ariannol proffesiynol
2n	Staff i gael adolygiad datblygiad personol un i un (Mai/Mehefin)
2o	Cryfhau gallu o fewn Adnoddau Dynol i gefnogi'r trawsnewid i'r model busnes newydd
2p	Swyddfa'r Rhaglen Gorfforaethol i ddarparu cymorth hyblyg i raglenni rheoli newid
2q	Sefydlu'r ethos 'partneriaid proffesiynol yn sicrhau busnes llwyddiannus'
2r	Cysoni gwell a chydweithio'n agosach â theulu AD y Weinyddiaeth Cyfiawnder
2s	Staff i gael adolygiad datblygiad personol un i un (Rhagfyr/Ionawr)
2t	Bydd absenoldeb oherwydd salwch wedi gostwng 3% (o'i gymharu â lefelau 2008-09)